




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe

Swansea Bay University
Health Board

2019-2020

Crynodeb Hawdd ei Ddeall o'r Datganiad Ansawdd Blynyddol



West Glamorgan

Rhoi Pobl yn Gyntaf

People First

Gorllewin Morgannwg



made with
photosymbols®

gwnaed â
photosymbols

Cyflwyniad



Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud Datganiad Ansawdd ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae'n dangos beth rydyn ni'n ei wneud i roi gofal o safon sy'n ddiogel, sy'n garedig ac sy'n dangos parch.



Mae'r crynodeb yma'n edrych ar beth wnaethon ni yn 2019-20.

1. Amlinelliad



Rydyn ni'n gwasanaethu 390 mil o bobl.

Mae gyda ni £1 biliwn i'w wario mewn blwyddyn.




Mae dros 12 mil o aelodau o staff.

Mae gyda ni 49 o feddygon teulu, 72 o ddeintyddion, 31 optegydd a 92 fferyllydd.

Yn 2019-2020 fe gawson ni:



Tua 15 mil o ymweliadau gan bobl feichiog.



Bron 4 mil o blant yn cael eu geni.



Bron 61 mil o ymweliadau â'r ysbyty.



Dros 12 mil o anafiadau brys a mân anafiadau.



Tua 35 mil o achosion dydd ac 16 mil o ymweliadau dydd.



Tua 175 mil o ymweliadau gan gleifion allanol.

Tua 330 mil o apwyntiadau dilynol.



Roedd 30 o gwynion newydd i'r Ombwdsmon.

Yn y 29 adroddiad terfynol:



Doedd 8 o'r cwynion ddim yn broblemau.



Mewn 17 achos, roedd angen gwneud newidiadau bach.



Roedd 4 o'r cwynion yn broblemau roedd angen eu datrys.



Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 10 adroddiad am ein gwasanaethau.

Y prif broblemau oedd:



Gweld cleifion ar gyfer llawdriniaeth.

Cyswllt a gwybodaeth gwael.




Dywedodd 95% o'r bobl a lenwodd ein Harolwg Cyfeillion a Theulu y bydden nhw'n ein hargymell ni.

2. Mynediad at Wasanaethau ac Amseroedd Aros



Mae dros 1 fil o gleifion yn aros dros 8 wythnos am ddiagnosis.

Mae 50 o gleifion yn aros dros 14 wythnos am driniaeth.



Erbyn mis Mawrth, roedd gyda ni 80% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth.




Mae 2 fil o gleifion yn aros dros 26 wythnos am apwyntiad newydd fel cleifion allanol.

Mae dros 6 mil o gleifion yn aros dros 36 wythnos am driniaeth.



Hyd yn oed gyda mwy o angen am wasanaethau, mae tystiolaeth ein bod ni wedi trio gwneud y gwasanaethau'n well ac yn fwy cyflym.

TAVI



TAVI yw triniaeth ar gyfer falf gul yn y galon.

Y llynedd, roedd rhestri aros yn rhy hir.



Dyma beth rydyn ni wedi'i wneud er mwyn gwneud amseroedd aros yn fyrrach:

Mae rhywun yn goruchwyllo'r gwasanaeth.




Rydyn ni'n gwario £1 filiwn er mwyn i bobl gael eu gweld yn fwy cyflym.

Mae gyda ni fwy o sesiynau labordai fel bod mwy o gleifion yn cael eu trin.




Mae gyda ni fwy o nyrsys. Maen nhw'n rhoi cymorth ar gyfer clinigau ychwanegol. Maen nhw'n ffonio cleifion. Maen nhw'n blaenoriaethu cleifion. Maen nhw'n rhoi cymorth ar ôl llawdriniaeth.

Apwyntiadau ar-lein



Achos Covid-19, dydyn ni ddim yn gallu gweld cymaint o bobl yn yr ysbytai a'r clinigau.




Mae gofal ar-lein yn cadw'r gwasanaethau i fynd.

Mae llawer o'r cleifion yn gallu sgwrsio dros fideo o'u cartrefi.

Llawdriniaethau Plastig ar yr Un Diwrnod



Yn Ysbyty Treforys, mae canolfan newydd ar gyfer Llawdriniaethau Plastig.



Mae cleifion sydd â rhai mathau o anafiadau a chanser y croen yn gallu cael triniaeth yn fwy cyflym.



Mae rhai cleifion yn gallu cael eu trin ar yr un diwrnod yn lle aros diwrnodau neu wythnosau.

Gofal Llygaid



Mae hanner ein hoptegwyr ni nawr yn gallu cynnig Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.



Mae hyn yn rhoi cymhorthion i bobl i'w helpu nhw gyda'u bywydau bob dydd.



Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion gofal llygaid dros 80 oed.



Mae'r gwasanaeth yma'n lleihau'r risg o golli annibyniaeth, cael trafferthion gyda meddyginiaethau, cwmpo ac unigedd.



Mae Archwilio Iechyd Llygaid Cymru yn rhoi cymorth i gleifion mewn tair ffordd.



Un ffordd yw eu bod nhw'n archwilio'r llygaid er mwyn gweld oes yna broblemau difrifol.

Rydyn ni hefyd yn cyfeirio pobl i'r ysbyty a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael archwiliadau ar ôl eu triniaeth.

Yr Uned Meddygon Teulu Acíwt yn Ysbyty Singleton



Mae'r Uned Meddygon Teulu Acíwt yn gweithio gyda Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.



Maen nhw'n helpu cannoedd o bobl i gael gofal brys bob mis.



Mae hyn yn golygu bod parafeddygon a'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys yn rhydd i roi mwy o ofal brys.



Mewn cyfnod o 2 wythnos, cafodd 70% o alwadau eu pasio i'r Uned Meddygon Teulu Acíwt.



Roedd hyn yn golygu nad oedd angen ambiwlansys mor aml am fod llai o gleifion yn mynd i'r ysbyty.

3. Staffio



Rydyn ni'n cyflogi mwy:
Meddygon A+E a gofal aciwt,
therapyddion, gweithwyr cymorth,
staff theatr a radiograffyddion.



Byddwn ni'n cyflogi mwy o nyrsys.

Mae hyn yn golygu llai o gleifion yn
cwmpo, llai o friwiau, llai o
gamgymeriadau gyda
meddyginiaeth a llai o gwynion.



Mae gwasanaeth 24 awr i wrando
ar y staff a'u helpu gydag unrhyw
problem.



Mae ein gwobrau Dewis y Bobl yn
gadael i bobl ganmol staff sy'n
gwneud mwy na'r disgwyl.

Cafodd 194 o aelodau staff,
timoedd a wardiau eu dathlu
eleni.

4. Mynediad gwell at wasanaethau Meddygon Teulu



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn helpu deintyddion, fferyllwyr a meddygon teulu i weithio'n well gyda'i gilydd.



Mae ein cytundebau gyda deintyddion, fferyllwyr a meddygon teulu'n newid o “dalw am drin cleifion” i “dalw am stopio cleifion rhag mynd yn dost”.

Gofal Deintyddol

Deintydd



Rydyn ni'n gweithio gyda deintyddion i gyflwyno ein Cynllun Cyflawni ar gyfer lechyd y Geg.

Rydyn ni'n symud gwasanaethau o'n hysbytai i'n deintyddion fel ei bod yn haws i gleifion gael gofal.




Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru ar gyfer meddygon teulu a deintyddion.

Mae'r adroddiadau'n dangos eu bod nhw'n rhoi gofal diogel sy'n helpu. Mae angen gwella'r wybodaeth am sut maen nhw'n defnyddio adborth.

'My Home First' a 'Keep Me at Home'



Rydyn i'n anelu at ddod â gofal yn agosach at gartrefi cleifion neu i mewn i'w cartrefi, fel bod llai o ymweliadau â'r ysbyty.



Ein cynlluniau ni yw gweithio ar y gofal rydyn ni'n ei roi ar gyfer cwmpadau, poen yn y frest, iechyd meddwl a thrafferthion anadlu.



Rydyn ni'n gweithio gyda Gwasanaethau Ambiwylans Cymru er mwyn cael gofal gwell, ymateb yn fwy cyflym i alwadau 999 a dyblu nifer y parafeddygon.



Rydyn ni'n cefnogi Cymorth ar y Cyd ar gyfer Cwmpo a byddwn ni'n para i gefnogi asesiadau "I stumble" ac "I Fell Down" mewn cartrefi gofal.


5. Oedi wrth ryddhau cleifion



O fis Tachwedd 2019, helpodd 'Adre o'r Ysbyty' bobl dros 65 oed i fynd adref cyn gynted ag roedden nhw'n teimlo'n ddigon da.

Mae anghenion tymor hir yn cael eu gwirio yn y cartref o fewn 24 awr.

6. Ffeindio a thrin cancer yn gynnar



Mae Bae Abertawe'n un o ddau Fwrdd Iechyd yng Nghymru sy'n rhoi'r holl ofal cancer.

Canolfan Diagnosis Cyflym



Pan allai fod cancer ar gleifion, maen nhw'n cael eu cyfeirio at y Ganolfan yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.



Ar gyfartaledd, mae'r amser ar gyfer cael diagnosis wedi mynd i lawr o 84 diwrnod i 6 diwrnod yn y clinig.

Os oes angen mwy o brofion, yr amser ar gyfartaledd yw 40 diwrnod.

Offer Newydd i Gleifion Cancer



Yng Nghanolfan Ganser Ysbyty Singleton, mae £12 miliwn yn cael ei gwario ar offer newydd dros 3 blynedd.



Mae technoleg newydd yn golygu canlyniadau gwell ar ôl cael diagnosis.

7. Trin strôc yn gynnar



Rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill ar Gynlluniau Cyflawni ar gyfer Strôc:

- Stopio strôc rhag digwydd
- Cyn yr ysbyty
- Y 72 awr cyntaf
- Strôc fach
- Bywyd ar ôl strôc



Rhan bwysig o hyn yw sefydlu'r Uned Strôc Hyper-Acíwt yn Ysbyty Treforys.

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif



Rydyn ni'n helpu pobl i stopio ysmegu, cael deiet gwell, cael mwy o ymarfer corff, col pwysau ac yfed llai o alcohol.



Lles

Bydd lles cymunedol gwell yn helpu strôc rhag digwydd.

Helpa Fi i Stopio



Mae'r gwasanaeth yma wedi helpu bron 2000 o ysmygwyr stopio drwy roi cyngor cyflym iddyn nhw.

8. Mynediad ar gyfer iechyd meddwl



Cafodd gwasanaeth Noddfa ei sefydlu ar gyfer achosion brys o iechyd meddwl tu allan i'r oriau arferol.



Mae'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys neu'r Heddlu'n gallu anfon pobl yno er mwyn cael cymorth gwell.



Rydyn ni wedi ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc gael cymorth a chyngor iechyd meddwl.



Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn yn cael eu newid gennyn ni a sefydliadau eraill.



Rydyn ni'n bwriadu sefydlu gwasanaeth lles iechyd meddwl drwy ein meddygon teulu.

Rydyn ni'n gweithio i gyflwyno 'Siarad â Fi 2' er mwyn helpu i stopio hunan-niwed a hunanladdiad.



Fel arfer, rydyn ni'n bodloni'r Ddeddf Iechyd Meddwl neu'n gwneud mwy na beth sydd ei angen.


9. Gweithio gydag asiantaethau eraill



Rydyn ni'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol a llawer o sefydliadau i roi gwasanaethau gofal iechyd.

Rydyn ni'n gweithio gyda chleifion a'u teuluoedd i wneud eu hiechyd a'u lles yn well.

10. Edrych Ymlaen - 2020-21



Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i wynebu pandemig Covid-19.

Mae staff wedi gwneud mwy o waith, mwy o hyfforddiant a rolau gwahanol er mwyn rhoi'r gofal gorau.

Nodau ar gyfer 2020-21: Covid-19



Clinigau ar-lein

Profi, Orlhain a Diogelu

Cynllunio brys


Ysbytai maes



Meysydd i'w gwella



Rheoli heintiau



Canser



Gofal brys



Cwypïadau



Stopio hunanladdiad



Amseroedd aros

Amseroedd aros

Newid gofal



Gwneud i fwy o wasanaethau weithio ar-lein

Ffyrdd newydd o roi gofal



Ein staff



Cydgynhyrchu

Gweithio gyda phartneriaid

11. Diwedd



Crynodeb Hawdd ei Ddeall yw hwn. Mae fersiwn lawn ar gael drwy glicio ar y ddolen yma:

sbu.corporatenursingqualitysafetyandbusinessteam@wales.nhs.uk



Gallwch chi gael copi caled drwy
01639 683309



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



West Glamorgan

Rhoi Pobl yn Gyntaf

People First

Gorllewin Morgannwg



made with
photosymbols®

gwnaed â
photosymbols